

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Rhithiol o'r Is Bwyllgor Cyllid am 6.30pm nos Fercher 27^{ain} o Hydref 2021

Agenda

1. Presennol
2. Ymddiheuriadau
3. Trafodaeth gyda Swyddog Adfywio Gwynedd Ymgynghori Fframwaith Adfywio Lle ni 2035 ag opsiynau ymgymeryd a chaeau chwarae Cyngor Gwynedd
4. Cod Ymddygiad
5. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 29-09-2021
6. Materion yn codi o'r cofnodion
7. Adroddiad Ariannol
8. Archwyllo Allannol
9. Taliadau angen sylw
 - a. Dwr Cymru Sistem Glasinfryn £ 283.97
 - b. D W Lewis Torri gwair Hydref £ 750.00
 - c. HMRC Hydref £ 149.80
 - d. Cyflog Hydref £ 600.04
 - e. Hughes Jones Dyson Cyflogres 20/21 £ 180.00

Tal i mewn £200 Angladd J Turner
10. Ceisiadau Nawdd Dim
11. Prosiectau
 - a. Prosiect Ysgol Y Faenol
 - b. Logo newydd
 - c. Septic Tanc Glasinfryn
 - d. Cerrig beddi wedi eu difrodi
12. I'w trafod hefyd
 - Asesu Risg
 - Cynllun Busnas

Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir
Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 29^{ain} o Fedi 2021
yn Rhithiol am 7.00pm.

1. Presennol Cyng L A James – Cadeirydd, Cyng J Pierce, Cyng B Jones, Cyng D Jones-Morris a'r Cyng D W Jones
2. Ymddiheuriadau Cyng M Lynch
3. Cod Ymddygiad
Atgoffa pawb o'r Cod ymddygiad ag os oedd gan rhywun angen datgan buddiant yna byddai angen iddynt wneud hynny ar lafar heno fel y gallai'r Clerc gofnodi

Cyng L A James a J Pierce yn aelodau ar bwyllgor Canolfan Penrhos
4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 01-09-2021

Cyng J Pierce yn cynnig a'r Cyng D W Jones yn eilio eu bod yn gofnodion cywir
5. Materion yn codi o'r cofnodion
 - **Archwilwyr Allannol** Dim adroddiad derfynnol wedi cyrraedd a felly bydd angen hysbysebu hynny ar ein gwefan onibai ei bod yn cyrradd fory 30 o Fedi **Clerc am drefnu**
 - **Y Ganolfan Newydd** – E byst wedi eu derbyn o 'Moderneiddio Addysg' yn hytrach na'r Adran Eiddo ond dim cyfarfod wedi bod. **Clerc i gysylltu et oi gadarnhau mae mater Cymunedol sydd angen ei drafod dim materion addysg**
6. Adroddiad Ariannol
 - 'Roedd y fantolen ariannol wedi ei rhannu'n electronig hefo'r aelodau ag yn dangos fod bellach £53,191.96 yn y cyfrif cyfredol, a £35,038.51 yn y cyfri Cadw Busnes.
Pwysleisiwyd eto yr angen i ddatblygu y cyllun busnes a cytunwyd i'r Clerc Cadeirydd y Cyngor Llawn a'r IBC yn ogystal a'r Cyng D Jones-Morris i gyfarfod yn Tan y Castell Nos Fercher 13eg am 7.00
 - Archwilwyr Allannol - Nodwyd dan Materion yn codi
 - Taliadau angen sylw – Argymell i'r Cyngor Llawn fod y Clerc yn talu'r cyfan oedd wedi do di law
7. Ceisiadau Nawdd
Cais gan CP Ieuenctid Penrhos tuag at Diffib
Argymell i'r Cyngor Llawn ein bod yn prynu Diffib i'r clwb a'i gynnwys fel un o'r rhwydwaith diffribyddion y Cyngor.
'Roedd y Clerc wedi cysylltu i holi ynglyn a Padiâu oedolion sydd yn ein peiriannau presennol. Mae yna badiâu plant ar gael ar gost ychwanegol – efallai gallai'r clwb brynu rheini tae nhw angen
8. Prosiectau
 - Prosiect Ysgol Y Faenol Mae yna bryderon ynglyn a Gwaith allannol a thirlunio **Clerc yn ceisio trefnu cyfarfod ag uwch swyddogion eiddo Gwynedd**
 - Ganolfan bresennol – datgelwyd pryder ynglyn a thrafferthion cael ymateb yn ol gan y Trysorydd
 - Logo Cyng L A James heb drafod ymhellach hefo'r dylunydd
 - Septic Tanc Glasinfryn Clerc ddim wedi derbyn amcanbris o Dwr Cymru
 - Dim un o'r ddau fin sbwriel wedi eu gosod yn y Fynwent na'r Cae Chwarae
9. I'w trafod hefyd
 - Asesu Risg Rhai cynghowyr wed cydnabod ymgymeryd a rhywfaint o'r Gwaith adolygu'r Gofrestr i geisio lleihau y risgiau oedd wedi eu adnabod yn y Cyngor Llawn dwaetha. Clerc i drefnu ymateb i leihau y risgiau oedd wedi eu adnabod gan RoSPA wrth archwyllo'r Cae Chwarae
 - Cynllun Busnas Hwyluso cyfarfod wedi ei drefnu a cheisio cael cynllun draft at ei gilydd fydd yn cydfynd/cwmpasu/cyfarch Cynlluniau Cyngor Gwynedd a Pholisiau Llyw Cymru

- Unllais - Cododd y Cyng B Jones fater oedd wedi ei drafod yng nghyfarfod Unllais am reoleiddio JetSkis sy'n achosi pryderon ar hyd ein arfordir gan gynnwys yr Afon Menai –
Cytunwyd ei roi ar Agenda nesaf y Cyngor Llawn